OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2020 No. 725

# Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020

## RHAN 5

## Gorfodi

**Camau gorfodi**

**18.**—(1) Caiff swyddog gorfodaeth roi hysbysiad cydymffurfio i berson os oes gan y swyddog sail resymol dros amau bod y person yn torri gofyniad yn rheoliad 6(1), 7(1), 8(1), 10(1) neu (4) neu 12(2).

(2) Caiff hysbysiad cydymffurfio bennu mesurau y mae rhaid i'r person y rhoddir ef iddo eu cymryd cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol er mwyn atal y person hwnnw rhag parhau i dorri'r gofyniad.

(3) Os oes gan swyddog gorfodaeth sail resymol dros amau bod person ("P") yn torri (neu ar fin torri) rheoliad 11(4), caiff y swyddog gorfodaeth dynnu P o lwybr cyhoeddus neu dir mynediad (o fewn yr ystyr a roddir gan reoliad 11(7)) sydd ar gau (neu sy'n cael ei gau) yn rhinwedd rheoliad 11(1), a chaiff ddefnyddio grym rhesymol, os bydd angen, i wneud hynny.

(4) Pan fo gan swyddog gorfodaeth sail resymol dros amau bod pobl yn ymgynnull yn groes i reoliad 14(1), caiff y swyddog—

(a) cyfarwyddo'r cynulliad i wasgaru;

(b) cyfarwyddo unrhyw berson yn y cynulliad i ddychwelyd i'r man lle y mae'n byw;

(c) mynd ag unrhyw berson yn y cynulliad i'r man lle y mae'n byw.

(5) Caiff swyddog gorfodaeth—

(a) wrth arfer y pŵer ym mharagraff (4), gyfarwyddo person i ddilyn unrhyw gyfarwyddiadau y mae'r swyddog yn ystyried eu bod yn angenrheidiol;

(b) defnyddio grym rhesymol wrth arfer y pŵer ym mharagraff (4)(a) neu (c).

(6) Pan fo gan swyddog gorfodaeth sail resymol dros amau bod person ("P") mewn cynulliad yn groes i reoliad 14(1) a'i fod yn blentyn gydag unigolyn ("U") a chanddo gyfrifoldeb dros P—

(a) caiff y swyddog gyfarwyddo U i fynd â P i'r man lle y mae P yn byw, a

(b) rhaid i U, i'r graddau y mae'n rhesymol ymarferol, sicrhau bod P yn cydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddyd neu gyfarwyddiad a roddir gan y swyddog i P.

(7) At ddibenion paragraff (6), mae gan U gyfrifoldeb am blentyn os oes gan U—

(a) gwarchodaeth neu ofal am y plentyn am y tro, neu

(b) cyfrifoldeb rhiant am y plentyn.

(8) Caiff swyddog gorfodaeth gymryd camau gweithredu eraill i hwyluso arfer pŵer a roddir i'r swyddog gan y rheoliad hwn neu reoliad 19.

(9) Ni chaiff swyddog gorfodaeth ond arfer pŵer dan y rheoliad hwn neu reoliad 19 os yw'r swyddog yn ystyried ei bod yn angenrheidiol ac yn gymesur gwneud hynny.

(10) Yn y rheoliad hwn a rheoliadau 19 ac 20, mae cyfeiriadau at ofyniad yn cynnwys cyfeiriadau at gyfyngiad.